

Diweddariad ynghylch Adnoddau Dynol (AD) ar gyfer cyrff llywodraethu

Dyma rai nodiadau atgoffa/diweddariadau ynghylch AD gan Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer cyrff llywodraethu:

- Bydd angen cwblhau'r adolygiad Rheoli Perfformiad (RhP) ar gyfer y Pennaeth erbyn 31 Rhagfyr 2008.
- Bydd angen i gyrff llywodraethu adolygu Ystod Ysgol Unigol (YYU) yr ysgol bob blwyddyn. Mewn achosion pan fydd yr YYU yn cael ei ailosod o 1 Medi, rhaid neilltuo unrhyw bwynt(iau) perfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol ar yr YYU is (hen) cyn cymhathu i'r YYU uwch (newydd). Os bydd YYU yn cael ei ostwng, ceir trefniadau diogelu am uchafswm o 3 blynedd.
- IMae'n bwysig iawn bod y corff llywodraethu yn sefydlu'r ddau bwyllgor personél statudol y bydd angen eu sefydlu er mwyn delio â disgyblu/diswyddo ac apeliadau:
 - Pwyllgor disgyblu a diswyddo staff
 - Pwyllgor apeliadau disgyblu a diswyddoDylai pob Pwyllgor gynnwys o leiaf 3 llywodraethwr gwahanol ar gyfer pob pwyllgor. Dylid cyflawni'r dasg hon yn ystod cyfarfod llawn cyntaf y corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd newydd. Bydd y dasg o benodi clerc ar gyfer pob pwyllgor yn dasg bwysig hefyd (gall yr un unigolyn fod yn glerc ar gyfer y ddau bwyllgor).

- Bwriedir gweithredu'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA) ym mis Hydref 2009. Ar yr adeg honno, rhaid i unrhyw un sy'n dechrau gweithio yn yr ysgol (gan gynnwys gwirfoddolwyr) neu unrhyw un a benodir i fod yn un o'r llywodraethwyr, gofrestru gydag ADA **cyn** iddynt gychwyn. Bydd y broses o gofrestru staff a llywodraethwyr presennol yn cael ei chyflawni fesul cam. Rhennir arweiniad a chymorth pellach ynghylch y mater hwn gydag ysgolion a chyrrff llywodraethu maes o law.
- Yn ddiweddar, newidiwyd y ffordd y caiff cyflog ac amser gosod ei gyfrifo ar gyfer athrawon rhan-amser. Bellach, caiff eu cyflog ei seilio ar ganran yr amser a dreuliyd yn gweithio yn erbyn Wythnos Addysgu yr Ysgol a Amserlennwyd (WAYA). Mae WAYA yn cynnwys amser addysgu ac amser CPA, ond nid amser cofrestru, egwyl a gwasanaethau. Mae pob pennaeth wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol ac maent yn gweithio gyda staff AD i weithredu'r newidiadau ar gyfer y staff presennol.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod, a fydddech gystal â chysylltu â'r adran AD ar 01446 709870/176.

Sue Alderman
Prif Swyddog Personél
Cyngor Bro Morgannwg

Mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House, Kendrick Road,
Y Barry CF62 8UF

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan

Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House
Kendrick Road, Barry CF63 4RU



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

and Governor Support Unit

Newsletter



Nodyn gan y Cadeirydd

Mae'r digwyddiadau a welwyd yn ddiweddar yn y marchnadoedd ariannol a'r trafferthion y mae banciau y credwyd eu bod yn hynod o ddiogel, wedi eu cael, wedi bod yn anghrediniol. Yna, yr holl arian ym Manciau Gwlad yr Iâ, sydd wedi diflannu efallai. Mewn economi bydeang, efallai na ddylem synnu bod cyrff cyhoeddus wedi bod yn buddsoddi mewn gwledydd tramor. Cefais sioc, fodd bynnag, pan gefais wybod bod elusen yr ydwy i yn gweithio gyda hi, wedi rhoi swm sylweddol o arian wrth gefn mewn banc yn y Swistir.

Wrth gwrs, mae'r arian yn hynod o ddiogel. Yr unig beth yng nghefn fy meddwl i yw faint o sefydliadau eraill o Aberdâr, yn un o'r rhannau tlotaf o gymoedd De Cymru, sy'n meddu ar gyfrif Banc yn y Swistir hefyd.

Wrth gwrs, bydd y dirwasgiad yn golygu y bydd pethau'n dynnach fyth o ran yr arian sydd ar gael i Ysgolion yn y Fro. Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi setliadau ariannol i gynghorau yng Nghymru, a fydd yn golygu y bydd yn rhaid i gynghorau, a llywodraethwyr yn y pen

draw, wneud rhai penderfyniadau anodd.

Er mwyn eich cynorthwyo gyda'r dasg anodd hon, hoffwn eich hysbysu am y Seminar i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion cyrff llywodraethu a gynhelir ym mis Tachwedd. Byddwn yn ystyried sut y gwneir penderfyniadau ariannol, a sut y mae gwahanol strwythurau pwyllgor yn cynorthwyo'r broses o sicrhau bod Corff Llywodraethu yn cael ei redeg yn ddiffwdan. Mae croeso i chi fynychu a chael cyngor gan bobl a allai fod yn gwneud pethau mewn ffordd wahanol i chi. Rhannwch eich arfer da chi. Mae'r adborth a gawsom wedi bod yn dda iawn wrth i lywodraethwyr fanteisio ar y cyfle i drafod eu materion mewn awyrgylch cefnogol da.

Ac os bydd yr holl drafod am drafferthion ariannol yn eich diflasu, cofiwch bod Nadolig ar y gorwel.

Martin Price

Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri

School Governors Guide to the Law – Ymgynghoriad

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn adolygu ac yn diweddarau dogfen 'School Governors Guide to the Law', a'r gobaith yw y bydd hon yn cael ei dosbarthu i bob llywodraethwr erbyn Tymor yr Haf 2009.

Mae LICC wedi gofyn i'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr (GSU) i ymgynghori gyda llywodraethwyr ynghylch sut yr hoffent gael y Canllaw. Mae'r dewisiadau fel a ganlyn:

Copi caled;

CD rom neu

Cyswllt ar-lein trwy gyfrwng gwefan LICC

A fydddech gystal â rhoi gwybod i ni os ydych yn ffafrio un o'r rhain, trwy anfon e-bost at GSU,

governors@valeofglamorgan.gov.uk neu ffonio 01446 709106/8. A fydddech gystal â chadarnhau hyn erbyn dydd Gwener 19 Rhagfyr 2008.

Bydd Llywodraethwyr na fyddant yn nodi dewis, yn cael copi caled o'r Canllaw yn awtomatig, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Jeremy Morgan

Uned Cymorth i Lywodraethwyr

**Rhifyn 15
Tymor Hydref
2008**

Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 gynrychiolydd etholedig sy'n llywodraethwyr sy'n rhieni
- Sefydlwyd VSGA i:
- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol i ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion a rheoli a darparu adnoddau i ysgolion, i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Gwobr ar gyfer Clercod Cyrff Llywodraethu o'r Radd Flaenaf

Bob dwy flynedd, bydd National Governors Association (NGA), y gymdeithas ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yn Lloegr, yn cynnig gwobr ar gyfer clerc corff llywodraethu o'r radd flaenaf. Diben hyn yw dathlu cyfraniad clercod i effeithiolrwydd cyrff llywodraethu a thrwy wneud hynny, annog clercod i ddatblygu eu rôl yn gyffredinol, er mwyn iddynt allu gwella'r gwasanaeth y byddant yn ei gynnig i gyrff llywodraethu.

Mae Llywodraethwyr Cymru yn cefnogi'r cynllun gwobrwyo hwn, sy'n cyd-fynd â mentrau eraill sy'n ceisio gwella'r hyfforddiant a gynigir i glercod corff llywodraethu. Mae Llywodraethwyr Cymru wedi bod yn ffodus, gan sicrhau arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), a fydd yn galluogi clercod corff llywodraethu yng Nghymru i gymryd rhan yn yng Ngwobr 2009.

Bydd y Wobr yn agored i glerc pob corff llywodraethu, os ydynt yn aelodau o staff yr AALI, yn staff ysgol, neu'n cael eu cyflogi ar wahân gan y corff llywodraethu neu awdurdod esgobaethol.

Bydd cynrychiolwyr o Llywodraethwyr Cymru yn asesu'r ymgeiswyr o Gymru, gan lunio rhestr fer o dri. Yna, bydd beirniaid Llywodraethwyr Cymru yn

cyfweld y tri a fydd yn cyrraedd y rownd derfynol, gan ddewis enillydd. Estynnir gwahoddiad i'r enillydd a'r ddau arall a gyrhaeddodd y rownd derfynol, i fynychu seremoni wobrwyo i Gymru a gynhelir yng Ngwesty Metropole, Llandrindod ar brynhawn dydd Iau, 5 Mawrth 2009. Bydd yr enillydd yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol gydag enillwyr y rhanbarthau yn Lloegr, a bydd prif enillydd yn cael eu dewis o blith y rhain. Estynnir gwahoddiad i'r enillydd o Gymru a'r enillwyr rhanbarthol o Loegr i fynychu seremoni wobrwyo a gynhelir yn Nhŷ'r Cingor, Birmingham ar ddydd Sadwrn 21 Mawrth 2009.

Os ydych chi a'ch corff llywodraethu o'r farn bod eich clerc yn cynnig gwasanaeth da, fe'ch anogir i neilltuo ychydig amser er mwyn llenwi ffurflen enwebu. Mae Llywodraethwyr Cymru wedi anfon llythyr a ffurflen enwebu yn uniongyrchol at Gadeirydd pob corff llywodraethu, a dylid llenwi a dychwelyd y rhain erbyn dydd Gwener 5 Rhagfyr 2009.

Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch, a fydddech gystal â ffonio swyddfeydd Llywodraethwyr Cymru ar 029 20487858.

Jeremy Morgan
Uned Cymorth i Lywodraethwyr

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2008-9

Ym mis Medi, estynnwyd gwahoddiad i gyrff llywodraethu enwebu llywodraethwr i fod yn aelod o Bwyllgor Rheoli VSGA yn ystod 2008-9. Mae Pwyllgor Rheoli VSGA yn cynnwys 15 o lywodraethwyr a dau Gynrychiolydd sy'n Rhieni-Llywodraethwyr (PGR) o'r sector Cynradd ac Uwchradd.

Isod, nodir aelodau'r Pwyllgor Rheoli newydd a

etholwyd ar gyfer 2008-9. Os hoffai unrhyw lywodraethwr gymryd rhan ym Mhwyllgor Rheoli VSGA o hyd, mae croeso iddynt fynychu'r cyfarfodydd fel arsylwyr.

Yn ystod ei gyfarfod ar ddydd Mawrth 2 Rhagfyr 2008, bydd y Pwyllgor Rheoli yn ystyried y broses o ethol swyddogion h.y. Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd.

Rhif.	Teitl	Llythyren gyntaf	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Gwenfô
2	Cyng Mr	C	Elmore	Ysgol Gynradd Colcot ac Ysgol Gynradd Holton
3	Mrs	G	Evans	Ysgol Iolo Morganwg
4	Mr	G	Fogden	Ysgol Erw'r Delyn
5	Mrs	M	Gibbs	Meithrinfa Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg
6	Mrs	J	Griffiths	Meithrinfa Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan
7	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Gwaun y Nant
8	Mr	K	Ingram	Ysgol Ashgrove ac Ysgol Gynradd Albert
9	Cyng Mr	G	Kemp	Ysgol Gyfun Y Bont-faen ac Ysgol Gynradd Y Rhws
10	Mr	P	Lewis	Ysgol Gyfun Y Bont-faen
11	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres
12	Dr	M	Price	Ysgol Gatholig St Richard Gwyn
13	Mr	G	Price-Stephens	Ysgol Gynradd Llandochoau
14	Mr	D	Treharne	Ysgol Gwaun y Nant
15	Cyng Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Albert ac Ysgol Gynradd Victoria
PGR	Mrs	C	Baggett	Ysgol Gynradd Romilly
PGR	Mr	S	James	Ysgol Gyfun Bryn Hafren

Cynlluniau ailgylchu i ysgolion dros y Nadolig



Charles Stratton-Ross, ein pencampwr casglu cardiau ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig



Llwyddodd Ysgol Gynradd Llancarfan i gasglu swm uchaf y llyfrau yellow pages

Unwaith eto eleni, cynhelir dau gynllun ailgylchu poblogaidd dros y Nadolig ar gyfer ysgolion y Fro. Efallai yr hoffai'ch ysgol chi gymryd rhan?

Bydd y ddau brosiect ar gael yn rhad ac am ddim i bob ysgol yn y Fro. Gofynnir i ysgolion gasglu cardiau Nadolig a/neu hen lyfrau ffôn yellow pages (mae'n ddrwg gennym, ond ni fydd modd cynnwys unrhyw lyfrau ffôn eraill). Yna, bydd y Cyngor yn casglu'r rhain ym mis Ionawr ac yn mis Chwefror 2009 er mwyn eu hailgylchu.

Bydd modd i ysgolion gymryd rhan mewn un o'r mentrau neu'r ddwy ohonynt, a bydd cyfle iddynt ennill gwobrau gwyach. Caiff y gwobrau eu seilio ar y niferoedd a gesglir fesul disgybl, felly bydd gan ein ysgolion lleiaf yn y Fro siawns o ennill hefyd.

Rydym wedi bod yn cynnal y ddau gynllun yn y gorffennol, ac mae'ch cefnogaeth chi wedi bod yn wych o ran nifer yr ysgolion a fu'n cymryd rhan, a'r swm a gasglwyd.

Mae'r broses o gasglu llyfrau Yellow pages yn rhan o brosiect partneriaeth cenedlaethol o'r enw The Yellow Woods Challenge, a gefnogwyd gan y Cyngor ac a drefnwyd ar lefel leol ers sawl blynedd. Y llynedd, gwelwyd pob disgybl yn Ysgol Gynradd Llancarfan yn casglu 10 llyfr yr un, sy'n swm rhyfeddol, ac o ganlyniad, enillodd yr ysgol y wobr gyntaf sef £300.

Y llynedd, am y tro cyntaf erioed, llwyddwyd i gasglu dros filiwn o gardiau Nadolig trwy gyfrwng ein cynllun, ac nid oedd yn anarferol gweld disgyblion yn casglu dros 10,000 o gardiau yr un.

Fel yr esboniodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gweladwy ac Adeiladu, Cynghorydd Geoff Cox, "Rydym yn ceisio sicrhau bod cymaint ag y bo modd o'r biliwn o gardiau a anfonir yn y DU bob blwyddyn yn cael eu hailgylchu, felly mae'n bwysig bod pawb yn ymwybodol o hyn a'u bod yn cymryd rhan."

Y llynedd, llwyddodd Ysgol Gynradd Gatholig St Josph e i gasglu'r swm anhygoel o 114,988 o gardiau, gan ennill y categori ar gyfer yr ysgolion cynradd. Roedd ei chyfanswm enfawr yn cyfateb â 525 o gardiau ar gyfer pob disgybl ar gyfartaledd!

Yn ogystal, bu disgyblion unigol mewn ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd yn cystadlu i fod yn bencampwyr casglu cardiau. Llwyddodd Maddie-Jo Rowland o Ysgol Gynradd Llanfair i gasglu'r swm anferthol o 20,346 o gardiau, gan gyrraedd y brig yn y gystadleuaeth i ddisgyblion cynradd.

Beth fydd y niferoedd fel eleni, gyda'ch help chi....gwych!

Os hoffech gofrestru'ch ysgol ar gyfer y prosiectau hyn, ffoniwch 01446 700111 neu anfonwch e-bost at: visible@valeofglamorgan.gov.uk erbyn 9 Rhagfyr, 2008.

Sam Harrison
Swyddog Ymwybyddiaeth Gwastraff
Cyngor Bro Morgannwg